**Dyddiad**/Date 6 Chwefror 2024
**Gofynnwch am**/Ask for P McLoughllin
**Rhif Ffôn**/Telephone 01446 729250
**e-bost**/e-mail pmcloughlin@strichardgwyn.school;
**Eich Cyf**/Your Ref
**Fy Nghyf**/My Ref SCfL/SRG

ST RICHARD GWYN

ARCHDIOCESE *of* CARDIFF
ARCHESGOBAETH CAERDYDD

At: Rhieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant yn Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn
Pennaeth a Staff Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn ; Ymgyngoreion Rhagnodedig.

Annwyl Ymgynghorai,

**HYSBYSIAD STATUDOL I SEFYDLU ADEILAD NEWYDD AR GYFER YSGOL UWCHRADD SANT RICHARD GWYN I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD O 813 I 1,050 AC I SEFYDLU CANOLFAN ADNODDAU ARBENIGOL Â 60 O LEOEDD O FIS MEDI 2025**

Ymgynghorodd y Corff Llywodraethol ag ymgyngoreion rhagnodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig i sefydlu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn o fis Medi 2025.
Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad gydag ymgyngoreion rhagnodedig rhwng 5 Medi ac 17 Hydref 2023. Nod yr ymgynghoriad oedd hysbysu ymgyngoreion rhagnodedig am y cynnig i gynyddu nifer y lleoedd Uwchradd drwy ehangu Sant Richard Gwyn o 813 i 1,050 o leoedd. Derbyniwyd 43 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, a phob un yn cefnogi'r cynnig.

Ar 16 Tachwedd 2023, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y corff llywodraethu fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 1 Rhagfyr 2023 a'i ddosbarthu i ymgyngoreion rhagnodedig a'i arddangos hefyd ym mhrif fynedfeydd Ysgol Sant Richard Gwyn. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion wneud hynny. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a chael eu hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod o 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod pan gyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi ar 1 Rhagfyr 2023, roedd rhaid i wrthwynebiadau statudol ddod i law erbyn 29 Rhagfyr 2020. Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau statudol yn ystod y cyfnod rhybudd statudol.

Ar 18 Ionawr 2024, cymeradwyodd Corff Llywodraethu Sant Richard Gwyn y cynnig i ehangu Sant Richard Gwyn o 813 i 1,050 o leoedd a sefydlu canolfan adnoddau arbenigol 60 lle**.** O ganlyniad, bydd adeilad newydd ar gyfer Sant Richard Gwyn yn cael ei godi ar yr un safle gyda lle i 1,050 o ddisgyblion a bydd yr ysgol yn symud i mewn o fis Medi 2025.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Corff Llywodraethu yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Galluogi'r ysgol i wella ymhellach wrth ddarparu ar gyfer poblogaeth fwy o ddisgyblion.
- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni galw'r dyfodol am addysg Uwchradd yn seiliedig ar y tueddiadau cyfredol.
- Cynnig amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol sy'n gallu addasu i newid, wrth herio a chefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.
- Cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- )Bydd yr adeilad newydd yn bodloni safonau 'Ardderchog' BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) ac yn cael ei adeiladu i safon 'A' TPY (Tystysgrif Perfformiad Ynni).

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn cysylltiad â'r ffactorau wedi'u hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

**Ansawdd a Safonau Addysg**

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad, daethant i'r casgliad bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal neu ei gwella. Dwedodd Estyn fod y cynnig yn nodi'n deg y dylai symud i ysgol sydd wedi'i hadeiladu'n bwrpasol arwain at brofiadau addysgu a dysgu gwell trwy ddarparu cyfleusterau addysg modern. Mae hyn yn cynnwys mannau trafod a Chanolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â seilwaith digidol gwell ar draws adeilad newydd yr ysgol sy'n adlewyrchu safonau'r cwricwlwm digidol. Yn eu hymateb i'r ymgynghoriad, dwedodd Estyn: 'Bydd dyluniad yr adeilad yn debygol o gefnogi addysgeg effeithiol trwy gyfleusterau gwell, ystafelloedd dosbarth o faint safonol a thrwy ddarparu adeilad a mannau awyr agored. Mae'n nodi hefyd y bydd amgylchedd dysgu gwell hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar gymorth ac arweiniad trwy gael ardal awyr agored fwy a gwell i wella lles disgyblion.

Mae gan y Cyngor uchelgais glir i ddeilliannau addysgol ym Mro Morgannwg fod gyda'r gorau yng Nghymru a chystal â'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr sydd â phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg. Bydd y cynnig yn helpu i wireddu'r uchelgais hon.

Bydd yr adeilad ysgol newydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i ddatblygu'r cwricwlwm a hybu lles disgyblion. Bydd gan ddisgyblion ragor o gyfleoedd i fanteisio ar gyfleusterau digidol a mannau dysgu awyr agored. Bydd darpariaeth well i fyfyrwyr sydd ag anghenion addysgol arbennig ar gael yn yr ysgol.

Yn ystod y cyfnod pontio ar ôl y penderfyniad, bydd y Cyngor yn cymryd unrhyw gamau ymarferol i darfu cyn lleied â phosibl ar y staff a'r disgyblion o amgylch y safle gan weithio'n agos gyda nhw.

Bydd y cynnig yn sicrhau buddsoddiad mawr ei angen yn Ysgol Sant Richard Gwyn a bydd yn helpu i gyflawni'r newid trawsnewidiol sy'n angenrheidiol i bob myfyriwr gyflawni eu potensial yn llawn.

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Bydd y cynnig yn sicrhau bod cydbwysedd cynaliadwy rhwng y cyflenwad a'r galw am leoedd ysgol uwchradd yn y tymor hir yn y Fro. Bydd y cynnig yn cynyddu lleoedd addysg uwchradd ym Mro Morgannwg i'r rhai sydd angen addysg ffydd.

Dan y cynigion, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ynglŷn â darparu trafnidiaeth i blant rhwng y cartref a'r ysgol.

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Bro Morgannwg i ddarparu trafnidiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol sy’n byw y tu hwnt i bellter cerdded o’r ysgol briodol agosaf. Oherwydd bod yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar ei safle gwreiddiol, ni fydd unrhyw newidiadau yn sgil y cynnig hwn ac felly ni fydd unrhyw effaith ar drafnidiaeth i ddisgyblion.

Bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgol i gynnal adolygiad o’i chynllun teithio llesol a bydd yn annog cynifer o ddisgyblion â phosibl i gerdded, beicio neu sgwtera i'r ysgol. Ni fydd lleoliad adeilad newydd yr ysgol yn effeithio ar y dalgylch.

Bydd gwell mynediad i ddisgyblion anabl a defnyddwyr eraill yn yr adeilad newydd arfaethedig.

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill**
Darperir arian trwy’r fformiwla ariannu ysgolion sy’n dyrannu’r rhan fwyaf o arian ar gyfer ysgolion ar sail nifer y disgyblion.

Bydd y cynnig hwn yn golygu y gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol i sefydlu ysgolion newydd a datblygu cyfleusterau o’r radd flaenaf. Amcan gost y cynllun yw £62 miliwn. Rhagwelir y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu’r prosiect yn rhannol drwy Fand B ei Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Y Cyngor fyddai’n cyfrannu gweddill yr arian cyfalaf.

Y gyllideb refeniw a ddirprwywyd i Ysgol Uwchradd Sant Richard Gwyn ar gyfer 2023/24 oedd £4.125M ar gyfer 836 o ddisgyblion. Byddai'r gost uwch o £935k (nad yw’n cynnwys effaith chwyddiant) yn digwydd yn raddol dros gyfnod o bum mlynedd wrth i gapasiti uwch yr ysgol gael ei lewni bob blwyddyn o flwyddyn 7. Amcangyfrifir mai’r gost uwch ar gyfer y flwyddyn gyntaf yw £208k a nodir cynllun ariannol addas yn y cynnig.

**Ffactorau cyffredinol eraill**
Mae’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â nodweddion gwarchodedig o ran oedran, anabledd, ailbennu rhywedd / hunaniaeth a chrefydd a ffydd. Byddai’r cynnig yn cefnogi’r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng y rhai â nodweddion gwarchodedig gwahanol.

Ni welwyd unrhyw effaith negyddol ar y nodweddion gwarchodedig a nodwyd. Byddai gweithredu’r cynnig yn llwyddiannus yn galluogi cydymffurfiaeth drwy ddarparu adeilad cwbl hygyrch â chyfleusterau sy’n niwtral o ran y rhywiau.

Mae’r asesiad effaith ar y Gymuned yn nodi y byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith niwtral ar y gymuned leol mewn 2 o’r 8 mesur a aseswyd. Byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o’r 8 mesur a aseswyd. Yn gyffredinol, byddai’r cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

**Yn gywir,**

Paul McLoughlin, Cadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Uwchradd St Richard Gwyn